Mae'r ddwy Lywodraeth yn ymrwymo i drafod er mwyn creu trefniant cynaliadwy ar gyfer y cyllid datganoledig i Gymru a chyllid cyhoeddus y DU, y gall y naill ochr a'r llall dderbyn ei fod yn deg ac yn fforddiadwy.

Cred Llywodraeth Cymru fod yn rhaid i'r trafodaethau hynny sicrhau canlyniad sy'n dderbyniol i'r ddwy ochr cyn y gellir datganoli unrhyw bwerau trethu sylweddol, a dim ond gyda chydysyniad Cynulliad Cenedlaethol Cymru y bydd Llywodraeth y DU yn cyflwyno newidiadau o'r fath.

Pwerau benthyca

Mewn egwyddor, mae Llywodraeth y DU yn derbyn yr achos dros roi pwerau benthyca i Lywodraeth Cymru er mwyn ariannu prosiectau seilwaith, ar yr amod bod ffrwd refereniw annibynnol briodol ar gael i'w cefnogi.

Gwneir penderfyniadau ar ddatganoli trethi – a allai gynnig ffrwd refeniw briodol – ar ôl i Gomisiwn Silk gyflwyno ei adroddiad.

Cytunwyd y dylai Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru barhau i ystyried yr opsiynau ar gyfer ariannu prosiectau seilwaith penodol, gan gynnwys yr achos dros allu manteisio ar bwerau benthyca yn gynnar, cyn y bydd unrhyw ffrwd refeniw annibynnol ar gael yn y dyfodol.

Mae'r ddwy Lywodraeth yn cytuno y dylai unrhyw bwerau benthyca weithredu o fewn cyfrifoldeb Llywodraeth y DU o ran cyflawni ei mandad cyllidol.

Diwygio ehangach

Ar hyn o bryd mae Comisiwn Silk yn ystyried yr achos dros ddatganoli pwerau cyllidol pellach i Gymru, gan gynnwys yr opsiynau ar gyfer datganoli rhai pwerau i amrywio trethi.

Mae'r ddwy Lywodraeth yn ymrwmo i roi ystyriaeth ddifrifol i gynigion y Comisiwn, gyda'r nod o gytuno ar becyn o ddiwygiadau sy'n cynnig trefn ariannu deg ac atebol i Gymru ac sy'n destun consensws eang.



HM Treasury, 1 Horse Guards Road, London, SW1A 2HQ

Jocelyn Davies AM
Chair, Finance Committee
National Assembly for Wales
Cardiff Bay,
Cardiff
CF99 1NA

19th August 2015

Dear Mr. Davies,

INQUIRY INTO FUTURE FUNDING

Thank you for your letter of 21 July on the National Assembly's Finance Committee inquiry into future funding.

Please find attached my response to the questions you included in your letter.

Yours sincerely,

A handwritten signature in blue ink, appearing to read 'G Hands', written over a circular stamp.

GREG HANDS



Annex – response to questions

1. A number of Parliamentary and other inquiries have concluded that there is a need for an independent body to monitor the application of the Barnett formula. Please can you confirm whether this option is currently being considered?

The government has committed to maintaining the Barnett formula, which is a fair, transparent and simple mechanism for determining changes to the devolved administrations' funding allocations. The UK Government is not currently considering the option of introducing an independent body to monitor the application of the Barnett formula.

2. Is it possible to regularly release full calculations of the operation of the Barnett formula to identify how spending decisions in England impact on Wales?

The outcome of the application of the Barnett formula to UK Government departmental allocations is announced both at Spending Reviews and at individual fiscal events. These figures are then represented in the Estimates laid before Parliament. HM Treasury's *Statement of Funding Policy* contains the relevant detail on the factors used when the Barnett formula is applied.

3. Does HM Treasury accept that there is sufficient evidence that the Barnett formula should incorporate a needs-based component, at least in relation to Wales?

The UK Government has agreed to introduce a floor in the level of relative funding it provides to the Welsh Government, in the expectation that the Welsh Government will call a referendum on income tax powers in the next Parliament. The precise level of the floor, and the mechanism to deliver it, will be agreed alongside the next Spending Review, as set out in the St David's Day Command Paper. Outside of the funding floor, we are not considering any other options to introduce further needs-based components in to the Barnett formula.



4. An initial block grant adjustment has been agreed for the taxes devolved under the Scotland Act 2012. Is it expected that the same block grant adjustment mechanism will apply to Wales?

We have agreed a one-off adjustment with the Scottish Government for 2015-16 in relation to stamp duty land tax and landfill tax. An ongoing mechanism will be agreed as part of the wider fiscal framework for Scotland, alongside the Scotland Bill 2015. We have also agreed an adjustment mechanism for the Scottish rate of income tax, although this will be superseded by the full devolution of income tax rates and thresholds. We will therefore also need to revisit these arrangements as part of the fiscal framework. We will be taking forwards discussions with the Welsh Government on block grant adjustments related to devolved Welsh taxes in due course.

5. How will the 'funding floor' for Wales which was announced alongside the St David's day agreement operate?

The St. David's Day Command Paper committed to introducing a funding floor with the details agreed at the next Spending Review. The Chancellor has indicated that the Spending Review outcome will be announced in November 2015. The Command Paper also set out that the funding floor would be introduced in the expectation that the Welsh Government will call a referendum on income tax powers in the next Parliament.

6. The Wales Bill Command Paper outlines certain conditions which must be met before new Welsh taxes could be approved. Please can you explain how the full approval process would operate in practice and the tests which must be met?

The Command Paper, published in March 2014, set out a clear list of the criteria against which any proposals for new taxes from the Welsh Government would be assessed by the UK Government. The paper set out that the criteria would include the extent to which the new tax:

- affects UK macro-economic or fiscal policy and/or the single market;

OFFICIAL



- may be non-compliant with EU legislation;
- increases tax avoidance risks; or
- creates additional compliance burdens for businesses and/or individuals;
- is aligned with devolved responsibilities.

Consistent with the process set out alongside the Scotland Bill, any proposal from the Welsh Government for a new tax would need to include full details on the following:

- the tax base (i.e. taxable activity);
- estimated revenue and economic impact;
- estimated impact on UK revenue or interaction with UK-wide taxes;
- expected impacts on business and individuals (including a distributional impact);
- assessment against all relevant legislation and directives, including the Human Rights Act, EU State Aid rules, Equality Act etc; and
- collection and compliance plans.

The UK Government will work with the Welsh Government to assess any such proposals in a timely manner. If at the end of that process the UK Government decides not to grant powers to the Assembly to create a new devolved tax, it will explain its reasoning.

OFFICIAL

Tudalen y pecyn 78

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon



Ein cyf/Our ref: LF CS 0704 15

Jocelyn Davies AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

28 Gorffennaf 2015

Annwyl Jocelyn

Bil yr Amgylchedd (Cymru)

Wrth i mi gyflwyno tystiolaeth i'r Pwyllgor Cyllid ar 9 Gorffennaf, cytunais i ddarparu rhagor o wybodaeth am nifer o faterion mewn perthynas â Bil yr Amgylchedd (Cymru). Rwyf wedi nodi ymateb i bob un ohonynt isod.

1. Enghreifftiau o'r manteision economaidd

Yn ystod y sesiwn dystiolaeth, bu i chi ofyn am y dulliau a ddefnyddiwyd yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol (Asesiad), credaf fod y wybodaeth ganlynol yn helpu i ateb eich cwestiynau.

Gofynnodd y Pwyllgor ynghylch y cyflwyniad y costau a'r manteision yn yr Asesiad ac yn benodol, ynghylch y ffaith fod manteision yn cael eu dangos ochr yn ochr â'r costau ac a yw'r costau yn cael eu gwrthbwyso gan fanteision hefyd. Ni chredaf fod hyn yn wir yn achos Bil yr Amgylchedd; mae'r Asesiad yn nodi'n glir yr amcangyfrif o'r costau a'r manteision ar wahân. Mae'r ymchwil a gomisiynwyd i lywio'r Asesiad ynghyd â'r Asesiad ei hun wedi'u cynhyrchu yn unol â chanllawiau 'Llyfr Gwyrdd' Trysorlys EM y Llywodraeth ganolog ar arfarnu.

Yn benodol, mae'r Asesiad yn nodi crynodeb o'r costau a'r manteision a gynhwyswyd ar gyfer pob rhan o'r Bil ac ar gyfer y Bil yn ei gyfanrwydd hefyd. Mae'r Asesiad yn amcangyfrif bod y costau cyffredinol yn £291 miliwn gydag amcangyfrif o fanteision yn £359 miliwn felly mae'r budd net oddeutu £68 miliwn (cyflwynir yr holl ffigurau fel gwerth cyfredol dros 10 mlynedd).

Gofynnodd y Pwyllgor am fanylion ynghylch sut y mesurwyd y manteision yn yr Asesiad. Yn unol â'r cais, rwyf wedi nodi rhai enghreifftiau isod i egluro sut yr amcangyfrifwyd y manteision, ond ni ddylid ystyried hyn yn ddadansoddiad llawn.

Rhan 1: Rheoli Cynaliadwy ar Adnoddau Naturiol

Y brif fantais bosibl a aseswyd fel un a gaiff effaith sylweddol yw'r cyfraniad at wella cydnerthed ecosystemau Cymru.

Mae ymchwil¹ yn awgrymu bod dull wedi'i dargedu o gynllunio defnydd tir sy'n cydnabod nwyddau ar gyfer y farchnad yn ogystal â gwasanaethau ecosystem nad ydynt ar gyfer y farchnad yn cynyddu gwerth net y tir 20% ar gyfartaledd i'r gymdeithas, gyda chynnydd llawer uwch yn digwydd mewn rhai lleoliadau.

Er nad oes model cynhwysfawr o wasanaethau ecosystem yng Nghymru a all fesur yn fanwl gywir y newidiadau posibl a fyddai'n deillio o reoli adnoddau naturiol yn well, mae yna astudiaethau sy'n gallu rhoi syniad o lefel y gwerthoedd dan sylw, mae'r asesiadau hyn wedi'u cynnwys yn yr Asesiad at ddibenion enghreifftiol. Fodd bynnag, ni ystyriwyd bod ymdrechion i gyfrifo'n fanylach y newidiadau mewn gwerth yn gadarn, felly, ni chawsant eu cynnwys yn y ffigur cyffredinol er lles y Bil.

Rhagwelir y bydd y manteision ansoddol disgwylidig o ganlyniad i'r Bil yn ychwanegu at y ffigur a amcangyfrifwyd yn yr Asesiad ar gyfer y Bil yn ei gyfanrwydd. Mae'r Asesiad yn nodi'r ffordd y rhagwelir y bydd y cynigion yn gwella cydnerthed ecosystemau Cymru, gan gynnwys manteision i gymunedau a'r amgylchedd.

Rhan 4: Casglu a Gwaredu Gwastraff

O ran manteision â gwerth ariannol, mae'r manteision mewn perthynas â chasglu a gwaredu gwastraff wedi eu mesur yn fwy manwl gywir gan fod tystiolaeth ar gael ar hyn o bryd (trowch i dudalennau 238 - 244 yn yr Asesiad). Fel y nodwyd yn yr Asesiad, mae'r asesiad o gostau a manteision Rhan 4 yn seiliedig ar ymchwil a wnaed gan Eunomia Research & Consulting Ltd gan ddefnyddio eu model llif gwastraff mewnol.

Fel gwerth presennol, y costau a amcangyfrifwyd ar gyfer darpariaethau gwastraff y Bil yw £159 miliwn dros 10 mlynedd gyda manteision o £218 miliwn.

Cafwyd y ffigurau ar gyfer y manteision â gwerth ariannol fel a ganlyn:

Busnesau Rheoli Gwastraff

Refeniw deunyddiau: £70.74 miliwn PV

Osgoi Treth Tirlenwi: £172.46 miliwn PV

Mae model Eunomia yn cymharu'r driniaeth debygol o ffrydiau gwastraff o dan senario gwaelodlin ('Gwneud Dim') ac o dan y polisi arfaethedig i gynhyrchu amcangyfrifon o'r gwariant cyfalaf ychwanegol a'r costau gweithredu parhaus sy'n gysylltiedig â chasglu gwastraff, costau trin gwastraff, refeniw o werthu deunyddiau y gellir eu hailgylchu a swmp y gwastraff sy'n mynd i safleoedd tirlenwi (ac felly treth tirlenwi).

Fel yr amlinellir yn yr Asesiad, disgwylir i fusnesau rheoli gwastraff elwa'n gyffredinol ar y cynigion, yn bennaf oherwydd arbedion cost yn sgil osgoi treth tirlenwi, trin gweddillion a

¹ 52Bringing Ecosystem Services into Economic Decision-Making: Land Use in the United Kingdom
<http://www.google.co.uk/url?url=http://www.nottingham.ac.uk/cem/pdf/Bateman-2013>

refeniw o ddeunyddiau y gellir eu hailgylchu. Fodd bynnag, mewn marchnad gystadleuol gellid disgwyl y byddai rhai o'r arbedion hyn yn cael eu trosglwyddo i gynhyrchydd y gwastraff, gan leihau'r fantais i'r busnes rheoli gwastraff.

Gofynnaf i'r Pwyllgor nodi tra bod lleihau treth tirlenwi'n gyfystyr â mantais i fusnesau rheoli gwastraff yng Nghymru, mae cost gyfatebol yn sgil hynny i'r Trysorlys. Felly, nid yw'r ffigur hwn wedi'i gynnwys yn y £218 miliwn a nodir uchod.

Awdurdodau Carthffosiaeth

Costau Osgoi Triniaeth Dŵr: £7.08 miliwn PV

Disgwylir i'r gwaharddiad ar waredu gwastraff bwyd i garthffosydd gynhyrchu arbedion i awdurdodau carthffosiaeth drwy:

- leihau rhwystrau a difrod i systemau carthffosiaeth
- osgoi costau trin elifiant o danciau malu

Ar sail costau cyfredol a'r gostyngiad disgwyliedig yn y swmp o wastraff bwyd sy'n mynd i mewn i'r system garthffosiaeth, amcangyfrifir y bydd y manteision i awdurdodau carthffosiaeth rhwng £530,000 a £884,000 y flwyddyn.

Mantais Amgylcheddol

Costau Amgylcheddol â gwerth Ariannol: £139.77 miliwn PV

Cafwyd y ffigurau ar gyfer y manteision amgylcheddol â gwerth ariannol fel a ganlyn:

Amcangyfrifir y bydd gwaharddiad ar losgi a thirlenwi rhai deunyddiau'n creu manteision amgylcheddol. Mae'r fantais amgylcheddol â gwerth ariannol a gyflwynir uchod yn seiliedig ar werth ariannol allyriadau i'r aer, gan gynnwys newid yn yr hinsawdd ac effeithiau llygredd aer, gyda'r olaf yn cael ei ystyried trwy werth ariannol yr effaith ar iechyd pobl.

Mae'r model yn amcangyfrif 2.5 miliwn tonnell fetrig ychwanegol o ddeunyddiau ailgylchu dros gyfnod o ddeng mlynedd a lleihad cyfatebol mewn CO₂ o 2.1 miliwn tonnell fetrig dros gyfnod o ddeng mlynedd.

Mae ymchwil ychwanegol wedi dangos y gellir sicrhau lleihad mawr mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr yn erbyn y waelodlin gyfredol trwy ddargyfeirio deunyddiau blaenoriaeth o dirlenwi i ailgylchu.

Er enghraifft, mae'r arbedion carbon wrth wella dulliau rheoli plastig o wastraff diwydiannol a masnachol o'r sefyllfa waelodlin yn 2007/8 i lefel uchel o adennill deunyddiau (yn bennaf trwy ddargyfeirio gwastraff tirlenwi i ailgylchu) yn gymaint â 110,000 tonnell fetrig o CO₂.

Creu Swyddi

Mae'r Asesiad yn nodi nifer o fanteision eraill hefyd o ganlyniad i Ran 4 y Bil, gan gynnwys y posibilrwydd o greu swyddi. Mae rhagor o wybodaeth i'w weld isod, fodd bynnag, nid yw gwerth ariannol y manteision hyn wedi'i gyfrifo at ddibenion yr Asesiad.

Rhagwelir y bydd lefelau uchel o ailgylchu yn cynyddu cyflogaeth yng Nghymru. Yn ôl y Cyngor Sgiliau Sector, amcangyfrifir bod tua 7,850 o bobl yn cael eu cyflogi yn y diwydiant rheoli gwastraff yng Nghymru. Yn ôl gwaith ymchwil, gallai gweithredu graddfa ailgylchu o 70% ar gyfer pob gwastraff erbyn 2025 greu swyddi newydd yng Nghymru fel a ganlyn:

- 3,600 o swyddi newydd yn y sectorau trefol, masnachol a diwydiannol (gan gynnwys adeiladu a dymchwel).
- 2,600 o swyddi newydd yn y sector trefol yn unig.

Mae llawer o'r swyddi a gaiff eu creu yn deillio o:

- Gweithgaredd economaidd y diwydiannau aildddefnyddio, paratoi at aildddefnyddio ac ailgylchu.
- Cyflogaeth 'anuniongyrchol' (yn sgil gweithgarwch economaidd arall sy'n cefnogi'r diwydiant, er enghraifft y diwydiannau'n prynu nwyddau a gwasanaethau).
- Cyflogaeth 'achosol' (yn sgil gweithwyr cyflogedig yn gwario'u cyflogau yn yr economi).

Mae data'r Comisiwn Ewropeaidd yn dangos bod y sector rheoli gwastraff ar gyfer yr UE-25 yn cyfateb i 1.2 i 1.5 miliwn o swyddi. Gall ailgylchu 100,000 tunnell fetrig o wastraff greu hyd at 250 o swyddi o gymharu â 20-40 ar gyfer llosgi ac oddeutu 10 ar gyfer tirlenwi.

Rhan 3: Codi Taliadau am Fagiau Siopa

Estyn pwerau Gweinidogion Cymru i'w galluogi i bennu tâl am fathau eraill o fagiau siopa:

- Cyfanswm y costau yw £123.75 miliwn dros 10 mlynedd o gymharu â chyfanswm manteision o £132.02 miliwn. Mae'r ffigurau hyn yn deillio o ymchwil a gyflawnwyd gan Ricardo AEA a Llywodraeth Cymru. Gellir eu dadansoddi fel a ganlyn:
 - Costau: £8.25 miliwn i weithgynhyrchwyr (gostyngiad yn nifer y bagiau siopa untro sy'n cael eu prynu) a £115.50 miliwn i ddefnyddwyr (ar sail yr opsiwn dewisol o godi tâl am "fagiau hir oes").
 - Manteision: £37.66 miliwn o refeniw i adwerthwyr, £80 mil i gyfanwerthwyr a chynnydd o £66.76 miliwn mewn rhoddion i elusennau.
 - Arall: £19.25 miliwn trwy gynnydd mewn refeniw treth a £8.27 miliwn mewn effaith amgylcheddol (er enghraifft, llai o sbwriel, allyriadau carbon a llygredd aer).

Dyletswydd ar adwerthwyr i roi'r enillion o werthu bagiau siopa i achosion da:

- Mae'r costau meintiol yn £1.2 miliwn dros 10 mlynedd o gymharu â manteision o £8.7miliwn. Mae'r ffigurau hyn yn deillio o waith yr Aseiad a gyflawnwyd gan Ricardo AEA a Llywodraeth Cymru. Gellir eu dadansoddi fel a ganlyn:
 - Costau: £800 mil i fusnesau (mewn perthynas â darparu dau "adroddiad" y flwyddyn) a £400 mil am fonitro a gorfodi (wrth i gytundeb gorfodol gael ei gyflwyno).
 - Manteision: Mae hyn yn cynnwys £4.79 miliwn yn fwy o refeniw ar gyfer elusennau amgylcheddol a £3.92 miliwn yn fwy o refeniw ar gyfer elusennau nad ydynt yn amgylcheddol.

Mae'r ffigurau ar gyfer manteision amgylcheddol yn seiliedig ar fodel 'o'r gwaelod i fyny' a wnaed gan Ricardo AEA a oedd yn edrych ar effeithiau cymharol ar CO₂ ac ansawdd aer sy'n gysylltiedig â chynhyrchu gwahanol fathau o fagiau siopa ac effeithiau gwaredu/taflu sbwriel sy'n gysylltiedig â'r gwahanol fathau o fagiau siopa hefyd.

Cydgrynhowyd yr effeithiau hyn er mwyn adlewyrchu nifer yr amrywiol fathau o fagiau a brynwyd o dan bob opsiwn. Mae gweddill y manteision yn adlewyrchu ailddosbarthu refeniw o'r tâl ychwanegol am fagiau siopa (sy'n gost i'r defnyddiwr) rhwng adwerthwyr, cyfanwerthwyr, elusennau a'r trysorlys. Unwaith eto, mae hyn yn seiliedig ar waith modelu a wnaed gan Ricardo AEA.

2) Y costau y gallai awdurdodau lleol ac eraill orfod eu hysgwyddo os aiff rhywbeth i mewn i'r ffrwd gwastraff ailgylchu, a'i fod wedyn yn diweddu mewn safle tirlenwi

Mae'r Bil yn targedu busnesau a'r sector cyhoeddus yn hytrach nag aelwydydd.

Ni fyddai cost gwaredu llygryddion o'r ffrwd ailgylchu yn syrthio ar gwmnïau rheoli gwastraff, nac ar awdurdodau lleol, sy'n gweithredu eu gwasanaethau gwastraff masnachol ar sail adennill costau llawn. Byddai'r gost yn cael ei throsglwyddo i gynhyrchwyr gwastraff busnes gan awdurdodau lleol neu fusnesau rheoli gwastraff sy'n casglu eu gwastraff nhw. Bydd hyn yn gymhelliant i gynhyrchwyr gwastraff sicrhau safon well o ailgylchu er mwyn lleihau costau busnes.

3) Sail Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer y ffigur archwilio o 1 y cant o safleoedd busnes

Mae'r ffigur o 1% yn amcangyfrif dangosol at ddibenion gwaith modelu.

Mae CNC yn archwilio safleoedd ar sail risg a gwybodaeth. Disgwylir y bydd yn targedu busnesau sy'n cynhyrchu mwy o wastraff, busnesau sy'n cynhyrchu deunyddiau gwastraff sy'n flaenoriaeth neu rai yr amheuir, yn sgil gwybodaeth, eu bod yn torri gofynion deddfwriaethol.

Trafodwyd y ffigur o 1% gyda CNC a phennwyd lefel ddigonol a phriodol o waith archwilio ar gyfer y gwaith modelu. Mae'r ffigur yn ystyried:

- y ddyletswydd ar gwmnïau casglu gwastraff ac awdurdodau lleol fel ei gilydd i gasglu gwastraff y gellir ei ailgylchu oddi wrth eu cwsmeriaid busnes trwy gasgliadau ar wahân, ac o ganlyniad bydd yr asiantau casglu eu hunain yn disgwyl i'w cwsmeriaid rannu eu gwastraff yn barod i'w gasglu;
- y disgwyliad rhesymol bod y rhan fwyaf o fusnesau'n dymuno cydymffurfio â'u rhwymedigaethau cyfreithiol.

4) Copi o'r llythyr i Gadeirydd y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd mewn perthynas ag amserlen ar gyfer cyhoeddi'r is-ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â'r Bil

Mae'r amserlen y gofynnoch amdani i'w gweld yn **Atodiad 1**.

Diweddarwyd y tabl hwn ers ei greu'n wreiddiol gan y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd yn fy llythyr ar 17 Mehefin 2015. Mae'r newidiadau hyn yn ganlyniad i dystiolaeth newydd fel a ganlyn:

Mae'r dyddiadau dangosol i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau ar ffioedd ar gyfer y system trwyddedu morol, o dan adrannau 78 i 80 o'r Bil, wedi eu diwygio. Y dyddiad arfaethedig ar gyfer cyflwyno ffioedd newydd, ac y bydd rhaid gwneud y rheoliadau ar ei gyfer, yw Ebrill 2017, sy'n cael ei lywio gan yr adolygiad o ffioedd trwyddedu morol sy'n parhau. Mae'r sail resymegol ar gyfer hyn yn cynnwys nifer o ffactorau; Cydsyniad Brenhinol i'r Bil, etholiadau Cynulliad 2016 a'r adolygiad o ffioedd.

Gobeithio y bydd hyn o gymorth i chi. Os hoffech ragor o wybodaeth am y Bil, mae croeso i chi gysylltu â mi. Anfonaf gopïau o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Carl Sargeant'.

Carl Sargeant AC / AM
Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol
Minister for Natural Resources

CC: Alun Ffred Jones AC, Cadeirydd y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd

Atodiad 1

Rhagolwg: Dyddiadau cychwyn disgwylidig ac is-ddeddfwriaeth

Mae'r Atodiad hwn yn nodi'r dyddiadau pryd y disgwylir y bydd darpariaethau'r Bil yn cychwyn, a'r dyddiadau pryd y disgwylir i'r pwerau a drosglwyddir i Weinidogion Cymru i wneud is-ddeddfwriaeth gael eu gweithredu. Hwyrach y byddai'n ddefnyddiol darllen y Datganiad o Fwriad y Polisi ochr yn ochr â'r ddogfen hon.

Dyddiad	Carreg filltir	Nodiadau
Mawrth 2016	-- Dyddiad arfaethedig Cydsyniad Brenhinol, yn amodol ar ewyllys y Cynulliad --	
Mai 2016	I gychwyn ddau fis ar ôl y Cydsyniad Brenhinol.	Rhan 1 (rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy); Rhan 2 (newid yn yr hinsawdd); Rhan 5 (pysgodfeydd ar gyfer pysgod cregyn); Adran 83 (diddymu gofynion cyhoeddi); Adran 84 (apeliadau yn erbyn ardollau draenio arbennig); Adran 85 (pŵer mynediad); adran 86 (is-ddeddfau).
Mai 2016	-- Etholiadau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru --	
C3 2016	Gweinidogion Cymru i ddiddymu'r Pwyllgor Rhanbarthol Llifogydd ac Arfordir a sefydlu Pwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol.	O dan adran 82 y Bil ac adrannau 26B, 26C, a 26D o Ddeddf Rheoli Llifogydd ac Arfordiroedd 2010, fel y'i mewnosodwyd gan adran 82 o'r Bil.
Medi 2016	CNC yn cyhoeddi'r SoNaRR cyntaf.	O dan adran 8 y Bil.
Ionawr 2017	Yr amser cynharaf y byddai Gweinidogion Cymru yn ystyried gwneud rheoliadau ar gyfer casglu gwastraff ar wahân.	O dan adran 45AA o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990, fel y'i mewnosodwyd gan adran 66 y Bil.
Ionawr 2017	Yr amser cynharaf y byddai Gweinidogion Cymru yn ystyried gwneud rheoliadau yn gwahardd gwaredu gwastraff bwyd i garthffosydd.	O dan adran 34D o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990, fel y'i mewnosodwyd gan adran 67 y Bil.

Ionawr 2017	Yr amser cynharaf y byddai Gweinidogion Cymru yn ystyried gwneud rheoliadau yn gwahardd gwaredu gwastraff trwy losgi.	O dan adran 9A o Fesur Gwastraff (Cymru) 2010, a fewnosodwyd gan adran 68 y Bil.
Mawrth 2017	Gweinidogion Cymru yn cyhoeddi NNRP.	O dan adran 9 y Bil.
Ebrill 2017	Y dyddiad dangosol pryd bydd Gweinidogion Cymru yn gwneud rheoliadau ar ffioedd ar gyfer monitro trwyddedau morol a'u hamrywio ac ati.	O dan adran 72A o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009, fel y'i mewnosodwyd gan adran 78 y Bil.
Ebrill 2017	Y dyddiad dangosol pryd bydd Gweinidogion Cymru yn gwneud rheoliadau ar ddarpariaethau pellach ar gyfer talu ffioedd trwyddedau morol.	O dan adran 107A o Ddeddf Mynediad Morol ac Arfordirol 2009, fel y'i mewnosodwyd gan adran 79 y Bil.
Ebrill 2017	Y dyddiad dangosol pryd bydd Gweinidogion Cymru yn gwneud rheoliadau ar apeliadau yn erbyn amrywio trwyddedau morol ac ati am beidio â thalu ffioedd neu flaendaliadau.	O dan adran 108(2A) o Ddeddf Mynediad Morol ac Arfordirol 2009, fel y'i mewnosodwyd gan adran 80 y Bil.
Mai 2017	Y dyddiad dangosol pryd bydd Gweinidogion Cymru yn cyhoeddi arweiniad ar weithredu datganiadau ardal.	O dan adran 13 y Bil, y bwriad yw y byddai'r arweiniad yn cael ei ddarparu cyn gynted ag y bo modd ar ôl i'r Bil dderbyn Cydsyniad Brenhinol.
Mai 2017	Rheoliadau i ddiffinio ystyr unedau carbon.	O dan adran 36 y Bil, bwriedir i'r rheoliadau hyn gael eu gwneud cyn gynted ag y bo'n ymarferol bosibl ac ar ôl derbyn Cydsyniad Brenhinol, ar ôl cael cyngor y corff cynghori.
Rhagfyr 2018	Yr amser pryd bydd yn rhaid i Weinidogion Cymru fod wedi cyhoeddi cyllidebau carbon ar gyfer cyfri allyriadau net Cymru am y cyfnod 2016-2020 a 2020-2025.	O dan adran 31 y Bil.
Ionawr 2020	Yr amser pryd bydd yn rhaid i Weinidogion Cymru fod wedi cyhoeddi cyllideb garbon ar gyfer cyfri allyriadau net Cymru am y cyfnod 2025-2030.	O dan adran 31 y Bil.
Rhagfyr 2020	CNC yn cyhoeddi'r ail SoNaRR.	O dan adran 8 y Bil.
Mai 2021	-- Etholiadau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru --	

Mehfin 2021	Gweinidogion Cymru yn dechrau eu harolwg cyntaf o NNRP.	O dan adran 9 y Bil.
Ionawr 2025	Yr amser pryd bydd yn rhaid i Weinidogion Cymru fod wedi cyhoeddi cyllideb garbon ar gyfer cyfrif allyriadau net Cymru am y cyfnod 2030-2035.	O dan adran 31 y Bil.
Ionawr 2030	Yr amser pryd bydd yn rhaid i Weinidogion Cymru fod wedi cyhoeddi cyllidebau carbon ar gyfer cyfrif allyriadau net Cymru am y cyfnod 2035-2040.	O dan adran 31 y Bil.
Ionawr 2035	Yr amser pryd bydd yn rhaid i Weinidogion Cymru fod wedi cyhoeddi cyllidebau carbon ar gyfer cyfrifi allyriadau net Cymru am y cyfnod 2040-2045.	O dan adran 31 y Bil.
Ionawr 2040	Yr amser pryd bydd yn rhaid i Weinidogion Cymru fod wedi cyhoeddi cyllidebau carbon ar gyfer cyfrif allyriadau net Cymru am y cyfnod 2045-2050.	O dan adran 31 y Bil.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Cadeiryddion y Pwyllgorau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd

16 Gorffennaf 2015

Annwyl Gadeirydd


Bil Drafft Cymru

Fel yr wyf yn siŵr y gwyddoch, rydym yn disgwyl i Lywodraeth y DU gyhoeddi Bil drafft Cymru yn yr hydref gyda chyfnod o ymgynghori i ddilyn, cyn i'r Bil ei hun gael ei gyflwyno rywbryd yn ystod gwanwyn 2016.

Rwyf wedi trafod y mater gyda'r Dirprwy Lywydd yn rhinwedd ei swydd fel Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol. Rydym wedi cytuno mai'r Pwyllgor hwnnw sy'n darparu'r cyfrwng mwyaf priodol i'r Cynulliad ystyried y Bil drafft. Yr wyf yn hyderus bod gan y Pwyllgor yr aelodaeth, yr arbenigedd a'r gallu i lunio ymateb cynhwysfawr ac awdurdodol i mi ac i'r Cynulliad ei ystyried a, gobeithio, ei gymeradwyo.

Er bod y Bil yn dod o fewn cylch gwaith y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, caiff ei waith craffu ei gryfhau'n sylweddol os bydd pwyllgorau eraill yn cymryd rhan yn y gwaith. Yn benodol, bydd yn bwysig i'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ac i'r Cynulliad cyfan allu manteisio ar arbenigedd polisi pwyllgorau eraill wrth archwilio effaith disodli ein model presennol o bwerau a roddir gyda model newydd o bwerau neilltuedig.

Buaswn yn ddiolchgar pe gallech ystyried gyda'ch Pwyllgor sut i wneud lle yn yr hyn yr wyf yn sicr fydd yn rhaglen brysur iawn yn yr hydref, i ymgymryd ag archwiliad difrifol o'r Bil mewn perthynas â chylch gwaith eich Pwyllgor. Bydd eich tîm clericio yn gallu rhoi cyngor ar sut i amseru eich ymateb i ychwanegu gwerth at waith y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol a sicrhau y gall y Cynulliad ddylanwadu ar y ddatl yn San Steffan.



**Rosemary Butler AC, Llywydd
Cadeirydd, y Pwyllgor Busnes**

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn/Tel: 0300 200 6232

Ebost/Email: private.office@assembly.wales

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg / We welcome correspondence in both English and Welsh

Mark Drakeford AC / AM
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: LF/MD/0688/15

Jocelyn Davies AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

30 Gorffennaf 2015

Annwyl Jocelyn,

Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru)

Hoffwn ddiolch i chi a'r Pwyllgor am y cyfle i drafod Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru) ar 15 Gorffennaf 2015.

Rwy'n falch o roi gwybodaeth bellach i'r Pwyllgor am y materion canlynol a godwyd yn ystod y sesiwn:

- a) y gwaith a wnaed mewn perthynas ag amcangyfrif y costau i'r gwasanaeth iechyd a gwasanaethau eraill pe bai nifer y bobl sy'n defnyddio e-sigaréts dan do yn ail-ddechrau ysmegu sigaréts arferol pe bai'r gyfraith yn newid;
- b) gwybodaeth am nifer y pryniannau prawf sy'n digwydd ar hyn o bryd ledled Cymru.

Mae'r wybodaeth i'w gweld isod.

Y gwaith a wnaed mewn perthynas ag amcangyfrif y costau i'r gwasanaeth iechyd a gwasanaethau eraill pe bai nifer y bobl sy'n defnyddio e-sigaréts dan do yn ail-ddechrau ysmegu sigaréts arferol pe bai'r gyfraith yn newid.

Nid oes tystiolaeth i ddangos y byddai'r cynnig i gyfyngu ar y defnydd o e-sigaréts mewn mannau cyhoeddus dan do yn achosi i ddefnyddwyr e-sigaréts ail-ddechrau ysmegu. Hefyd, nid oes unrhyw astudiaethau ar gael ar hyn o bryd i fesur yr effeithiau ar iechyd defnyddwyr e-sigaréts sy'n ail-ddechrau ysmegu tybaco yn dilyn cyfnod o ymwrthod yn llwyr. Wrth ystyried y mater hwn, mae hefyd yn bwysig nodi'r canlynol:

- Mae nifer o safleoedd yng Nghymru eisoes yn cyfyngu ar y defnydd o e-sigaréts yn eu mannau dan do (tua 50% yn ôl arolygon gan Lywodraeth Cymru¹ a Sefydliad Siartredig

¹ Llywodraeth Cymru. Polisiâu e-sigaréts: arolwg o weithleoedd yng Nghymru. 2014.
<http://gov.wales/statistics-and-research/e-cigarette-policies-surveys-schools-workplaces/?lang=en>

lechyd yr Amgylchedd Cymru²) ac o ystyried bod y defnydd o e-sigaréts gan oedolion ym Mhrydain yn cynyddu yn ôl arolygon ASH UK³, nid yw'n ymddangos bod hyn yn cael effaith ar y defnydd o e-sigaréts gan oedolion;

- Mae'r mwyafrif o ddefnyddwyr e-sigaréts hefyd yn parhau i ysmegu cynhyrchion tybaco arferol (rhwng tair rhan o bump o oedolion sy'n ddefnyddwyr yn 2015 yn ôl arolwg ASH UK⁴ ac 85% o ddefnyddwyr yn ôl yr Astudiaeth Smoking Toolkit⁵).

Yng ngoleuni'r ansicrwydd uchod, mae'r Memorandwm Esboniadol⁶ yn cyflwyno enghraifft i ymchwilio i'r effaith ddamcaniaethol ar iechyd defnyddwyr e-sigaréts sy'n ail-ddechrau ysmegu tybaco drwy ddefnyddio astudiaeth sy'n edrych ar Flynyddoedd Oes a Addaswyd yn ôl Ansawdd (QALYs) y mae pob ysmygwr sy'n rhoi'r gorau i ysmegu yn yr hirdymor yn eu hennill. Mae'r enghraifft yn y Memorandwm Esboniadol yn awgrymu y byddai cynnydd o 0.1% yng nghyfradd nifer yr ysmygwyr yn gyfystyr â 2,450 yn fwy o bobl yn ysmegu tybaco yng Nghymru. (2,450 yw 0.1% o amcangyfrif poblogaeth canol blwyddyn ONS ar gyfer y rheini sy'n 18+ oed, oedd yn 2,452,000 yn 2013.) Gan ddefnyddio'r astudiaeth a nodwyd eisoes, mae hyn yn gyfystyr â gostyngiad rhwng 2,400 a 6,300 o Flynyddoedd Oes a Addaswyd yn ôl Ansawdd, sy'n gost rhwng £146 miliwn a £380 miliwn.

Hefyd, mae angen cydbwysu goblygiadau cost y senario damcaniaethol hwn yn erbyn amrywiolion eraill sy'n anodd eu mesur:

- Gellid dadlau mai'r math o ddefnyddwyr e-sigaréts sy'n dweud eu bod yn defnyddio e-sigaréts i osgoi'r gwaharddiad ysmegu yw'r rhai sydd fwyaf tebygol o ail-ddechrau ysmegu tybaco o ganlyniad i'r cynnig hwn. Hefyd, mae'n fwyaf tebygol bod defnyddwyr o'r fath yn defnyddio e-sigaréts ochr yn ochr â sigaréts tybaco arferol. Ymddengys bod arolwg diweddaraf ASH UK yn adlewyrchu'r rhagdybiaeth hon⁷, a ganfu fod mwy o bobl sy'n defnyddio e-sigaréts a thybaco yn nodi'r gwaharddiad fel un o'r rhesymau dros ddefnyddio e-sigaréts (25% o'r rheini a holwyd) o'i gymharu â chyn-ysmygwyr sy'n defnyddio e-sigaréts (11% o'r rheini a holwyd). Y dybiaeth felly yw mai'r math o ddefnyddiwr sydd fwyaf tebygol o roi'r gorau i ddefnyddio e-sigaréts o ganlyniad i'r ddarpariaeth hon yw'r math o berson sy'n defnyddio e-sigaréts a thybaco ac yn defnyddio e-sigaréts i osgoi'r gwaharddiad ysmegu yn unig. Mae'r math hwn o ddefnyddiwr yn parhau i ddod i gysylltiad â'r niwed i iechyd y mae ysmegu tybaco yn ei achosi.
- Mae parhau i ysmegu unrhyw sigaréts arferol i bob pwrpas yn trosglwyddo'r risg cardiofasgwlaidd llawn, ac efallai mai dim ond effaith gymedrol fydd ar risg canser oherwydd bod hyd y cyfnod o ysmegu yn bwysicach na dwysedd.⁸ Dros yr hirdymor,

² Ymchwil i Bolisiau E-sigaréts yn y Sector Lletygarwch Annibynnol. Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd Cymru. Tachwedd 2014. Heb ei gyhoeddi.

³ Taflen ffeithiau ASH 33: Y defnydd o sigaréts electronig ym Mhrydain. Mai 2015 <http://www.ash.org.uk/information/facts-and-stats/fact-sheets>

⁴ Taflen ffeithiau ASH 33: Y defnydd o sigaréts electronig ym Mhrydain. Mai 2015 <http://www.ash.org.uk/information/facts-and-stats/fact-sheets>

⁵ Yr Astudiaeth Smoking Toolkit. Tueddiadau yn y defnydd o sigaréts electronig yn Lloegr. Diweddarwyd 23 Ebrill 2015 <http://www.smokinginengland.info/latest-statistics/>

⁶ Paragraff 372 o Femorandwm Esboniadol Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru). Mehefin 2015.

⁷ Y defnydd o e-sigaréts ymysg oedolion ym Mhrydain. 21 Mai 2015. <http://www.ash.org.uk/information/facts-and-stats/fact-sheets>

⁸ Papur Cefndir ar E-sigaréts (Systemau Electronig Cyflenwi Nicotin) Rachel Grana, PhD MPH; Neal Benowitz, MD; Stanton A. Glantz, PhD. Center for Tobacco Control Research and Education University of

gallai'r costau i GIG Cymru mewn perthynas ag afiechydon cysylltiedig ag ysmegu barhau i gael eu hachosi gan ysmygwyr presennol sydd bellach yn defnyddio tybaco ac e-sigaréts.

- Nid oes tystiolaeth ar gael ar hyn o bryd am y risg hirdymor i iechyd yn sgil y defnydd o e-sigaréts i ddefnyddwyr a'r rheini sydd o'u hamgylch. Felly, mae perygl o gostau ychwanegol i GIG Cymru yn sgil y defnydd o e-sigaréts yn yr hirdymor, gan gynnwys eu defnydd mewn mannau cyhoeddus caeedig.
- Mae peth tystiolaeth yn dangos y gallai cyn-ysmygwyr sy'n defnyddio e-sigaréts i roi'r gorau i ysmegu ail-ddechrau ysmegu. Er enghraifft, mae un astudiaeth yn awgrymu bod tua 6% o gyn-ysmygwyr sy'n defnyddio e-sigaréts yn ddyddiol yn ail-ddechrau ysmegu ar ôl mis, a bod 6% yn gwneud hynny ar ôl blwyddyn⁹. Felly, gellid dadlau bod peth cyfnewidioldeb eisoes yn y defnydd o e-sigaréts ymysg cyn-ysmygwyr.

Rwy'n cydnabod nad oes tystiolaeth bendant yn bodoli ar hyn o bryd i ddangos a yw e-sigaréts yn ail-normaleiddio ymddygiadau ysmegu, ac yn arwain at gynnydd yn nifer y bobl sy'n ysmegu ac yn dechrau ysmegu. Felly, costau posibl yw'r holl rai sydd wedi'u nodi ac mae angen cydbwysu unrhyw gostau posibl i'r gwasanaeth iechyd neu wasanaethau yng Nghymru yn erbyn yr arbedion cost posibl a ddaw o atal pobl rhag dechrau ysmegu yn sgil y ddarpariaeth hon, yn enwedig plant a phobl ifanc. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn amlinellu sut y byddai'n rhaid i'r ddarpariaeth hon atal o leiaf 36 o bobl yng Nghymru rhag dechrau ysmegu tybaco dros y cyfnod o bum mlynedd ac uchafswm o 237 er mwyn bod yn niwtral o ran cost.¹⁰ Rydym yn amcangyfrif bod tua 25,000 o bobl ifanc 11-16 oed yng Nghymru wedi arbrofi gydag e-sigaréts, a bod bron hanner o'r rhain erioed wedi rhoi cynnig ar dybaco.¹¹ Gan ddefnyddio'r data hwn, byddai'n rhaid i'r ddarpariaeth hon atal llai na 2% o'r bobl ifanc 11-16 oed yng Nghymru sydd wedi arbrofi ag e-sigaréts ac sydd heb roi cynnig ar dybaco cyn hynny rhag dechrau ysmegu er mwyn bod yn niwtral o ran cost.

Caiff y Memorandwm Esboniadol ei ddiweddarau yn ystod proses y Bil pan fydd y data diweddaraf ar gael.

Gwybodaeth am nifer y pryniannau prawf sy'n digwydd ar hyn o bryd ledled Cymru

Mae pryniannau prawf yng Nghymru yn ymdrin â nifer o feysydd ar hyn o bryd, gan gynnwys cynhyrchion dan gyfyngiad oedran, gwerthu alcohol a masnachu twyllodrus. Gan mai awdurdodau lleol a'r heddlu sy'n gyfrifol am bryniannau prawf, a'u bod yn cael eu cynllunio yn lleol, mae anawsterau o ran cael trosolwg llawn ar nifer y pryniannau prawf sy'n digwydd ledled Cymru.

California, San Francisco WHO Collaborating Center on Tobacco Control. Paratowyd ar gyfer Menter Atal Tybaco Sefydliad Iechyd y Byd, Rhagfyr 2013.

⁹ Etter JF and C Bullen A longitudinal study of e-cigarette users. *Addict Behav* 2014. 39 (2): t 491-4

¹⁰ Gweler paragraff 414 o Femorandwm Esboniadol Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru). Yn seiliedig ar amcangyfrif bod atal unigolyn rhag ysmegu, ar gyfartaledd, yn arwain at ennill blwyddyn o oes fesul unigolyn sy'n cael ei gyfrifo yn £60,000 y person.

¹¹ Un o'r prif ganfyddiadau mewn papur a gyhoeddwyd yn y BMJ ar y defnydd o e-sigaréts ymysg pobl ifanc yng Nghymru gan DECIPHER oedd, er bod y rheini sydd byth yn ysmegu yn llawer llai tebygol o nodi eu bod yn defnyddio e-sigaréts, gan mai'r grŵp o'r rheini sydd byth yn ysmegu yw'r mwyaf o dipyn, mae'n cynnwys mewn termau absoliwt bron cynifer o bobl ifanc sydd wedi rhoi cynnig ar e-sigarét ychydig o weithiau â'r grŵp llai o ysmygwyr. Moore G, Hewitt G, Evans J, et al. Y defnydd o sigaréts electronig ymysg pobl ifanc yng Nghymru: tystiolaeth o ddau arolwg trawstoriadol BMJ Open 2015;5: e007072. doi:10.1136/bmjopen-2014-007072 <http://bmjopen.bmj.com/> Yn y wasg


Yn 2012-13, y cyfnod diweddaraf y mae data ar gael ar ei gyfer ar hyn o bryd, roedd 841 ymgais i brynu alcohol, gyda 73 gwerthiant o ganlyniad.¹² Yn 2013-14, roedd 185 ymgais i brynu tybaco, gydag 13 gwerthiant o ganlyniad.¹³

Ym mis Mawrth 2013, gwnaeth Heddlu De Cymru 9 pryniant prawf ar-lein o alcohol, i'w anfon at wirfoddolwyr 15 ac 16 oed dros gyfnod o dridiau. Roedd hyn yn targedu archfarchnadoedd mawr yn hytrach na manwerthwyr bach. Roedd 4 o'r 9 ymgais yn llwyddiannus.¹⁴

Disgwylir y bydd awdurdodau lleol yn defnyddio'r gofrestr genedlaethol o fanwerthwyr tybaco a chynhyrchion nicotin i'w helpu i gynllunio gorfodaeth, ac yn eu galluogi i wneud pryniannau prawf gan fanwerthwyr llai sy'n cynnig gwasanaethau anfon.

Rwy'n gobeithio bod y wybodaeth yn y llythyr hwn yn ateb y cwestiynau a godwyd gan aelodau'r Pwyllgor.

Cofion cynnes,

A handwritten signature in black ink that reads "Mark Drakeford". The signature is written in a cursive style and is contained within a thin black rectangular border.

Mark Drakeford AC / AM

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Minister for Health and Social Services

¹² Diweddariad Gwerthiant Dan Gyfyngiad Oedran WHOTS Chwefror 2014

¹³ Gwybodaeth a ddarparwyd gan WHOTS

¹⁴ <http://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-23124507>

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon